John Witherspoon 1723–1794

Gweinidog a phrifathro coleg

Ganwyd John Witherspoon yn Gifford, Swydd Haddington yn yr Alban, ar 5 Chwefror 1723. Ef oedd mab hynaf Anne a James Witherspoon, gweinidog ym mhlwyf Yester. Derbyniodd addysg yn Ysgol Ramadeg Haddington gan fynd ym 1736 i Brifysgol Caeredin i astudio wrth draed athrawon enwog fel John Stevenson, Athro Rhesymeg, a'r Athro Mathemateg, Colin MacLaurin. Graddiodd gydag MA yn Chwefror 1739 ac arhosodd yno i astudio diwinyddiaeth hyd 1743.

Trwyddedwyd ef i bregethu yn henaduriaeth Haddington ym 1743 ac fe gafodd alwad i fod yn weinidog ym mhlwyf Beith ddwy flynedd yn ddiweddarach. Yn y flwyddyn honno (1745) arweiniodd giwed o wirfoddolwyr oedd o blaid yr Hanoferiaid yn erbyn byddin o Jacobiaid ac fe'i daliwyd wrth iddo wylio brwydr Falkirk a'i garcharu yng Nghastell Doune. Fe'i rhyddhawyd ychydig ddyddiau yn ddiweddarach.

Daeth i amlygrwydd gyntaf ym 1753 mewn dadl ynglŷn â phenodi offeiriaid o fewn i Eglwys yr Alban. Gallai awdurdodau eglwysig (y cymedrolwyr) benodi unrhyw un i ofalaeth hyd yn oed yn groes i ewyllys yr henuriaid a'r aelodau. Gwrthwynebai Witherspoon yr arferiad hwn yn llwyr ac yn gyfan gwbl. Cyhoeddwyd llyfryn dienw sef *Ecclesiastical Characteristics* a ddychanai wleidyddiaeth a phregethu'r cymedrolwyr ac aeth si ar led mai Witherspoon oedd yn gyfrifol am y gyfrol. Oherwydd y sïon gwrthwynebwyd ei benodi yn weinidog ym mhlwyf Laigh yn Paisley.

Ar ddiwedd y pumdegau newidiodd ei drywydd gan iddo ddechrau ysgrifennu traethodau diwinyddol ac athrawiaethol. Cyhoeddodd y *Serious Enquiry into the Nature and Effects of the Stage* a ystyriai addasrwydd theatrau a dramâu. Ym 1764 derbyniodd DD er anrhydedd gan Brifysgol St Andrews ac ym 1766 derbyniodd wahoddiad i fynd yn brifathro Coleg Presbyteraidd New Jersey yn Princeton yn America. Pan gyrhaeddodd yno ddwy flynedd yn ddiweddarach aeth ati i weithio'n

ddygn i roi'r coleg ar seiliau cadarn. Aeth ar deithiau i New England a Virginia i chwilio am fyfyrwyr newydd a chymerodd drosodd yr ysgol ramadeg. Darlithiai hefyd mewn hanes, diwinyddiaeth, rhethreg ac athrawiaeth foesol. Tyfodd y coleg yn gyflym gan ddod yn eithriadol o boblogaidd. Pan ddechreuodd y trafferthion rhwng Prydain ac America safodd ef o blaid achos America. Argraffwyd nifer o gyhoeddiadau ganddo yn cynnwys *Thoughts on American Liberty* a'i bregeth *The Dominion of Providence over the Passions of Men* a ddadleuai achos yr Americanwyr. Ef oedd yr unig offeiriad i arwyddo'r Datganiad o Annibyniaeth. Daeth y coleg yn fagwrfa i chwyldroadwyr a dylanwadodd ei safbwyntiau ar nifer o fyfyrwyr a ddaeth yn ddiweddarach yn arweinyddion gwleidyddol. Yn eu plith yr oedd James Madison a ddaeth yn un o'r prif gyfranwyr tuag at gyfansoddiad yr Unol Daleithiau.

Achos pwysig arall i Witherspoon oedd annog Albanwyr i ymfudo i America oherwydd fe gredai y byddai hyn o fantais i economi America a'r Alban. Mewn cydweithrediad â masnachwr o'r enw John Pagan buddsoddodd mewn tir yn Nova Scotia ac Efrog Newydd gan hysbysebu'n helaeth yn yr Alban. Roedd yn ŵr o ddylanwad mawr ac er nad yw haneswyr o'r farn ei fod yn feddyliwr o fri mae'n amlwg fod ganddo gymeriad a phersonoliaeth gref. Bu'n briod ddwywaith; yn gyntaf gydag Elizabeth – cawsant ddeg o blant – ac yna pan oedd yn 68 oed priododd Ann Dill oedd yn 24 oed. Bu farw yn ei gartref sef Tusculum, Princeton, ar 15 Tachwedd 1794 ac yno y cafodd ei gladdu.